# Lwfansau Ychwanegol

Os gwnaethoch chi ddewis llwybr ariannu Bwrsariaeth GIG Cymru, mae lwfansau ychwanegol y gallwch chi eu hawlio hefyd.  Mae Lwfans Dibynnydd/Rhiant a Gofal Plant i gyd yn destun prawf modd.  Cyfeiriwch at y canllawiau ar y wefan.

Lwfansau Ychwanegol - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

## Lwfans Dysgu i Ddibynyddion a Rhieni

Cwblhewch yr adran hon o'r ffurflen gais ar-lein os ydych chi am wneud cais am y lwfansau hyn. Bydd angen cwblhau’r adran hon os ydych chi'n mynd i wneud cais am Lwfans Gofal Plant.

## Lwfans Gofal Plant

Mae'r lwfans hwn, os ydych chi'n gymwys, i helpu gyda chostau gofal plant pan fyddwch chi ar y cwrs.  Nid yw'n daladwy os ydych chi ar absenoldeb mamolaeth.

## Lwfans Myfyrwyr Anabl

Gall myfyriwr sy'n derbyn Bwrsariaeth GIG Cymru wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl GIG Cymru. Cyfeiriwch at y wefan am ragor o wybodaeth.

Bydd angen i chi gysylltu â Gwasanaeth Anabledd eich Prifysgol yn uniongyrchol i wneud cais am Asesiad Anghenion.